FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd

Cyngor Sir Ceredigion

25 - 27 Chwefror 2003

Rhagair

Mae cynnal awdit o wasanaethau cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i roi mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr ac i wella eu hyder mewn perthynas â bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau unedol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforir a bwydydd anifeiliaid. Trwy Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yr awdurdodau mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni'n bennaf.

Mae adroddiad yr awdit sy'n amgaeëdig yn archwilio gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol sydd ar waith i gynnal archwiliadau o fusnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplu a dadansoddi, rheoli mewnol, hyrwyddo diogelwch bwyd a gweithgareddau addysgol. Dylid cydnabod fod y ffordd a'r dull mae awdurdodau unedol yn darparu eu gwasanaethau gorfodi bwyd yn gallu amrywio'n fawr gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae awdit yr Asiantaeth yn asesu cydymffurfiad awdurdod lleol o'i gymharu â Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd – "Y Safon", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun awdit yw cynnal a chynyddu'r diogelwch a roir i ddefnyddwyr a gwella hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arferion da a darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr Awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

Mae geirfa o dermau technegol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad archwilio ar gael i'ch helpu yn Atodiad A.

CYNNWYS

		Tudalen
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Awdit	**4**
	Cwmpas yr Awdit	**4**
	Cefndir	**5**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**7**
	Canfyddiadau'r Awdit	
3	Trefniadaeth a Rheolaeth	**8**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Dogfenedig	**10**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**11**
6	Cyfleusterau ac Offer	**13**
7	Archwiliadau Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**14**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**18**
9	Egwyddor Awdurdod Cartref	**19**
10	Cyngor i Fusnes	**20**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**21**
12	Archwilio a Samplu Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**22**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd	**23**
14	Achosion Diogelwch Bwyd	**24**
15	Gorfodaeth	**25**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Archwilio	**27**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**29**
18	Ymgynghori â Sefydliadau Eraill	**30**
19	Monitro Mewnol	**31**
20	Adolygiad gan Gymheiriaid neu Drydydd Parti	**32**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**33**
	Cynllun Gweithredu i Gyngor Sir Ceredigion	**34**
	Atodiad	
A	Geirfa	**39**

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r awdit dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Bydd rhaid i chi dalu ffi atgynhyrchu a thrafod o £7.50 a £1.50 am bostio a phacio.

Rheswm am yr Awdit

1.2 Rhoddwyd y pŵer i osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Cynhaliwyd yr awdit o wasanaeth bwyd Cyngor Sir Ceredigion dan adran 12(4) y Ddeddf fel rhan o raglen awdit flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Cafodd yr Awdurdod ei archwilio fel rhan o raglen awdit llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Awdit

1.4 Roedd yr awdit yn cwmpasu gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid Cyngor Sir Ceredigion. Cynhaliwyd elfen ar-safle yr awdit yn swyddfeydd y Cyngor ym Mhenmorfa, Aberaeron, Ceredigion; Ffordd Portland, Aberystwyth, Ceredigion a Stryd Morgan, Aberteifi, Ceredigion ar 25 – 27 Chwefror 2003.

1.5 Bu'r awdit yn asesu sut i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Safon, gan ddefnyddio protocolau awdit FSA/AP3/1 – FSA/AP21/1. Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Gorffennaf 2004), ac mae'n rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth gydag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau awdit ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.6 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am ddarparu holl Wasanaethau Llywodraeth Leol i Sir Ceredigion. Mae arwynebedd y Sir yn 179,500 hectar yn fras ac mae ganddi boblogaeth o tua 70,700 o bobl. Dyma un o'r siroedd gwledig mwyaf yng Nghymru. Aberystwyth, Aberaeron ac Aberteifi yw'r 3 prif ganolfan. Er mai amaethyddiaeth yw prif ddiwydiant traddodiadol yr ardal, mae effeithiau'r dirywiad ym myd amaeth a'r pwysau cyffredinol a wynebir gan y sector hwn wedi dod â chanlyniadau difrifol i'r economi lleol. Yn y cyfnod diweddar, mae pwysigrwydd yr ardal fel cyrchfan i ymwelwyr wedi cynyddu gyda llawer o ymwelwyr yn mwynhau'r atyniadau niferus ac amrywiol sydd ar gael, yn cynnwys yr arfordir godidog.

1.7 Cynhaliwyd y gwaith o orfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid gan swyddogion yr Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai gyda gorfodi hylendid bwyd yn cael ei wneud gan yr Is-adran Fwyd a Diogelwch a gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn cael ei wneud gan yr Is-adran Safonau Masnach.

1.8 Roedd Swyddfeydd y Cyngor ar agor o 09:00-17:00 ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd y Cyngor yn gweithredu gwasanaeth argyfwng cyffredinol y tu allan i oriau ar adegau eraill lle gellid cysylltu â swyddogion y gwasanaeth gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid os oeddynt ar gael. Roedd rhif ffôn y gwasanaeth ar gael yn hawdd i aelodau'r cyhoedd.

1.9 Yn ogystal â gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid, roedd swyddogion yr Awdurdod yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau yn cynnwys iechyd galwedigaethol a diogelwch, trwyddedu, lles anifeiliaid, diogelu defnyddwyr, masnachu teg a phwysau a mesurau.

1.10 Mae lefel staffio Gorfodi Bwyd a nodwyd yng Nghynllun Gwasanaeth Bwyd yr Awdurdod yn 2002/2003 wedi'i nodi isod:

Adnodd sydd ar gael	**CIIA***
Swyddogion Gorfodi Hylendid Bwyd	4.45
Swyddogion Gorfodi Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	0.75
CYFANSWM	**5.2**

*Cyfwerth ag Amser Llawn

1.11 Roedd Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2002/2003 yn nodi mai £243,282.18 oedd cyfanswm y gyllideb ar gyfer gwasanaeth diogelwch bwyd, a oedd

yn cynnwys £211,334.53 o gostau cyflogau, £2,738.67 wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddi a £9,000 ar gyfer samplu.

1.12 Roedd adroddiadau monitro yr Awdurdod i'r Asiantaeth am y pedwar chwarter o flwyddyn ariannol 2001/2002 yn dangos fod y gwasanaeth Diogelwch Bwyd yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth fwyd mewn 1,638 o safleoedd a deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid mewn 74 o safleoedd. Roedd y busnesau bwyd hyn o fewn y sectorau arlwyo a manwerthu'n bennaf. Roedd yr adroddiadau'n dangos fod yr Awdurdod wedi cynnal:

Gweithgarwch gorfodi	**Nifer**
Archwiliadau hylendid bwyd	398
Ymweliadau hylendid bwyd eraill	571
Samplau anffurfiol	0
Samplau ffurfiol	337
Archwiliadau safonau bwyd	53
Ymweliadau safonau bwyd eraill	31
Samplau anffurfiol	37
Samplau ffurfiol	35
Archwiliadau bwydydd anifeiliaid	13
Ymweliadau bwydydd anifeiliaid eraill	0
Samplau anffurfiol	5
Samplau ffurfiol	1

1.13 Roedd ymchwiliadau parhaus i weithredoedd llath anghyfreithlon wedi cael effaith sylweddol ar yr adnoddau oedd gan yr Awdurdod i gynnal gweithgareddau gorfodi bwyd rheolaidd dros y 3 blynedd diwethaf. Mae swyddog penodedig o'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi ei secondio i'r Awdurdod i'w helpu gyda'r gwaith hwn.

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Mae'r Awdurdod wedi bod yn rhan o nifer o ymchwiliadau i ladd anghyfreithlon, oedd â goblygiadau cenedlaethol o ran diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r galw hwn ar adnoddau wedi effeithio'n sylweddol ar y rhaglen archwilio safleoedd bwyd ac roedd yn ffactor a gyfrannodd at anallu'r Awdurdod i gynnal archwiliadau mor aml â'r gofyn.

2.2 Fodd bynnag, mae cwmpas a chymhlethdod yr ymchwiliadau wedi arwain at ddatblygu gweithdrefnau newydd a chreu canllawiau a ddylai helpu awdurdodau eraill i gynnal ymchwiliadau tebyg yn y dyfodol.

2.3 Cryfderau'r Awdurdod

Ymchwiliad i faterion iechyd cyhoeddus mawr

Roedd yr Awdurdod wedi gweithio'n ddiwyd iawn ar ymchwiliad cymhleth ac eang i waith lladd anghyfreithlon a oedd ag ôl-effeithiau cenedlaethol sylweddol i iechyd y cyhoedd a'r economi. Roedd yn rhaid i swyddogion yr Awdurdod ddatblygu sgiliau newydd a meithrin partneriaethau gwaith newydd gyda sefydliadau i sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Bydd parodrwydd yr Awdurdod i rannu'r profiadau hyn yn helpu gwasanaethau gorfodi eraill i wneud ymchwiliadau tebyg.

2.4 Meysydd Allweddol i'w Gwella

Amlder Archwiliadau

Nid oedd ymchwiliadau o safleoedd bwyd yn cynnwys y rhai o Safleoedd Cymeradwy yn cael eu cynnal mor aml â'r hyn sy'n ofynnol yng Nghodau Ymarfer 8 a 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Monitro Mewnol

Roedd y diffyg gweithdrefnau monitro mewnol dogfenedig, yn arbennig mewn perthynas â materion ansoddol, yn golygu fod dulliau cynnal rhai gweithgareddau gorfodi yn amrywio'n fawr. Bydd systemau monitro mewnol sydd wedi'u dogfennu a'u gweithredu'n dda yn sicrhau gwasanaeth gorfodi cyson ac effeithiol.

Cofnodion Hylendid Bwyd

Roedd y cofnodion mewn perthynas â safleoedd cyffredinol, Safleoedd Cymeradwy a safleoedd cigyddion trwyddedig yn anghyflawn. Nid oedd cofnodion ffeiliau'n cynnwys digon o fanylion i roi hanes cywir ar gyfer ymchwiliadau dilynol, i benderfynu a oedd camau gweithredu gorfodi dilynol yn briodol, ac i alluogi monitro ansawdd gwaith gorfodi yn effeithiol yn fewnol.

Canfyddiadau'r Awdit

3 Trefniadaeth a Rheolaeth

3.1 Roedd yr Awdurdod yn cael ei arwain gan Gabinet a oedd yn cynnwys Arweinydd, a 7 aelod gweithredol gyda'u portffolio eu hunain. Roedd gweddill y Cyngor yn cynnwys y Pwyllgor Rheoleiddio, 1 Pwyllgor Cydgysylltu a 6 Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ynghyd â nifer o bwyllgorau eraill. Roedd diogelwch bwyd yn perthyn i gylch gorchwyl yr Aelod o'r Cabinet gyda phortffolio am Wasanaethau Amgylcheddol a Thai.

3.2 Roedd gan yr Awdurdod 7 Cyfarwyddiaeth, a'r Tîm Bwyd a Diogelwch Iechyd yr Amgylchedd a'r Tîm Safonau Masnach oedd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth gorfodi bwyd, y ddau yn gweithio dan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai.

3.3 Roedd y fframwaith cynllunio corfforaethol yn cynnwys Cynllun Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2002/2003. Roedd hwn yn nodi nifer o feysydd allweddol ar gyfer gweithredu, gydag un ohonynt - "Gwell Ansawdd Bywyd" – yn trafod y gwasanaeth gorfodi bwyd.

3.4 Roedd y Cynllun Gwella yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth, manylion am berfformiad y blynyddoedd blaenorol, ac yn nodi camau gweithredu allweddol a dangosyddion perfformiad ar gyfer y flwyddyn a ddaw. Y dangosyddion perfformiad a ddefnyddiwyd ar gyfer diogelwch bwyd oedd:

- Canran yr archwiliadau o safleoedd bwyd y dylid fod wedi'u cynnal, a gynhaliwyd mewn safleoedd uchel eu risg (A-C);

- Canran yr archwiliadau o safleoedd bwyd y dylid fod wedi'u cynnal, a gynhaliwyd mewn safleoedd eraill (D-F).

3.5 Yn 2001/2002, cynhaliodd yr Awdurdod 59% o archwiliadau mewn safleoedd uchel eu risg yn erbyn targed o 90% a 78% o archwiliadau mewn safleoedd eraill na osodwyd targed ar eu cyfer. 100% a 75% oedd y targedau ar gyfer 2002/2003.

3.6 Roedd yr Awdurdod wedi llunio Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd cynhwysfawr ar gyfer 2002/2003, a oedd yn cydymffurfio â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd mewn Awdurdodau Lleol. Cymeradwywyd y Cynllun Gwasanaeth gan y fforwm Aelodau perthnasol ym mis Gorffennaf 2002. Nid oedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu cynlluniau o'r fath o'r blaen.

3.7 Cafodd dangosyddion perfformiad ychwanegol eu nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

Camau Gweithredu Targed		
1.	Rhaglen Archwilio Safonau Bwyd	Targed
	Cynnal archwiliadau yn unol â'r rhaglen	
	Safleoedd Uchel eu Risg	100%
	Safleoedd Risg Cymedrol	50%
	Safleoedd Isel eu Risg	30%
2.	Rhaglen Archwilio Hylendid Bwyd	
	Cynnal archwiliadau yn unol â'r rhaglen	
	Safleoedd categori A, B ac C	100%
	Safleoedd categori D, E ac F	75%
3.	Rhaglen Archwilio Bwydydd Anifeiliaid	
	Cynnal archwiliadau yn unol â'r rhaglen	100%
4.	Cwynion am Fwyd a Bwydydd Anifeiliaid	
	Ymateb Cyntaf i Gwynion am Fwyd, Cwynion am Safleoedd Bwyd a Chwynion am Safonau Bwyd o fewn 10 diwrnod	100%

3.8 Roedd y Cynllun Gwella wedi'i adolygu yn 2000. Nid oedd y Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd wedi'i adolygu.

Argymhelliad

3.9 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod y Cynllun Gwasanaeth yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r adolygiad yn cael ei ddogfennu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Dogfenedig

4.1 Mae'r Awdurdod wedi llunio nifer o weithdrefnau dogfenedig ar gyfer nifer o'i feysydd gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd. Fodd bynnag, nid oedd ganddo system i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer pob un o'r gweithgareddau gorfodi a ddaw dan y Safonau yn cael eu hadolygu.

4.2 Roedd staff yn gallu cael gafael ar gopïau caled o wyddoniaduron cyfraith bwyd masnachol a chopïau caled o'r holl ddogfennaeth a oedd yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni gweithgareddau gorfodi, yn cynnwys deddfwriaeth a chanllawiau priodol.

Argymhellion

4.3 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau dogfenedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. [Y Safon – 4.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu system reoli ar gyfer yr holl ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau gorfodi. [Y Safon – 4.2]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd gan yr Awdurdod 2 swyddog arweiniol gyda'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol; un ar gyfer gorfodi hylendid bwyd a'r llall ar gyfer gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

5.2 Roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu cynllun dirprwyo ym mis Ebrill 1996 a gafodd ei ddiwygio a'i ddiweddaru ym mis Mai 2001. Yn ogystal, roedd gan bob swyddog ddogfen awdurdodi yn rhoi manylion y ddeddfwriaeth yr oedd ganddynt awdurdod i'w gorfodi. Roedd y ddogfen yn nodi pa bwerau penodol oedd gan y swyddogion yn unol â'u cymwysterau, hyfforddiant a'u profiad. Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig i awdurdodi ei swyddogion.

5.3 Yn gyffredinol, roedd swyddogion yn cyflawni dyletswyddau yn unol â'u hyfforddiant, cymwysterau a'u profiad, er bod un swyddog, a oedd yn dilyn cwrs i ennill cymhwyster priodol mewn archwiliadau hylendid bwyd, eisoes yn gwneud archwiliadau isel eu risg i'r Awdurdod. Roedd dau swyddog nad oedd wedi bodloni gofynion Cod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd wedi'u hawdurdodi i gyflwyno Rhybuddion Gwahardd Brys er nad oedd tystiolaeth eu bod wedi defnyddio'r pwerau hyn.

5.4 Roedd yr Adran yn gweithredu gwasanaeth anffurfiol y tu allan i oriau a oedd yn dibynnu ar ewyllys da swyddogion. Dywedwyd wrth yr archwilwyr y byddai uwch reolwyr yn defnyddio gwybodaeth arbenigol swyddog gorfodi bwyd oedd ar gael pan fyddai mater arbennig yn codi mewn cysylltiad â bwyd neu fwydydd anifeiliaid y tu allan i oriau.

5.5 Nid oedd yr Awdurdod wedi gweithredu cynllun asesu anghenion hyfforddiant ffurfiol ond gwnaeth asesiadau cyffredinol o anghenion hyfforddi swyddogion. Ni luniwyd rhaglen hyfforddi ar gyfer y staff.

5.6 Roedd cofnodion cymwysterau swyddogion gorfodi hylendid bwyd yr Awdurdod yn anghyflawn, gyda chymwysterau 7 o'r 9 swyddog ar goll. Mae angen ymestyn y cofnodion hyfforddi i gynnwys manylion am gynnwys ac amcanion y cyrsiau, eu hyd ac unrhyw asesiad a wneir o'r hyfforddiant.

5.7 Roedd dadansoddiad o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2002/2003 fel y'i nodwyd yng Nghynllun Gwasanaeth Bwyd 2002 yn nodi bod y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant yn £2738.67. Roedd hi'n amlwg o nifer y cyrsiau a ddilynwyd a'u perthnasedd fod yr Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant priodol i'w staff.

Argymhellion

5.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i awdurdodi swyddogion. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau bod yr holl staff a oedd yn gysylltiedig â chyflawni dyletswyddau gorfodi bwyd yn gymwys i wneud hynny yn unol â Chod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.3]

(iii) Cofnodi cynnwys, amcanion, hyd ac unrhyw asesiad a wneir o'r cyrsiau hyfforddi a fynychwyd. [Y Safon – 5.4]

(iv) Sicrhau bod cofnodion cymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill yn cael eu cadw. [Y Safon – 5.5]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi darparu'r holl offer a chyfleusterau oedd yn angenrheidiol fel bod modd cynnal yr holl weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth.

6.2 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi ei thermomedrau. Cadwyd cofnodion o ddyddiadau graddnodi'r thermomedr er bod y dyddiad graddnodi wedi pasio mewn nifer o achosion. Nid oedd thermomedrau'r swyddog yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

6.3 Roedd meddalwedd gyfrifiadurol yr Awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth ystadegol oedd yn ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn gorfforaethol i sicrhau bod systemau priodol wrth gefn ar waith i leihau'r risg o lygredd neu golli gwybodaeth a gedwid mewn cronfeydd data.

Argymhelliad

6.4 Dylai'r Awdurdod:

Lunio a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi i sicrhau bod pob offeryn mesur tymheredd yn cael ei raddnodi a'i gynnal yn briodol. [Y Safon – 6.2]

7 Archwiliadau Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Yn ei Gynllun Gwasanaeth ar gyfer 2002/2003 nododd yr Awdurdod bod ganddo 1638 o safleoedd bwyd ar ei gronfa ddata. O'r rhain, roedd y nifer canlynol o bob categori i fod i gael eu harchwilio yn ystod y flwyddyn.

Categori Risg	Rhif
A	100
B	159
C	449
D	88
E	67
F	88
CYFANSWM	**951**

7.2 Roedd yr Awdurdod wedi nodi 21 safle fel rhai trwyddedig dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cig) (Diwygio) (Cymru) 2000, ac wedi cymeradwyo 16 safle dan ddeddfwriaeth cynnyrch penodol (Safleoedd Cymeradwy).

7.3 Archwiliwyd hanes archwilio 10 safle cyffredinol a 10 Safle Cymeradwy. Nid oedd 7 safle cyffredinol ac 8 Safle Cymeradwy wedi'u harchwilio'n ddigon rheolaidd yn ôl gofynion Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. Gweithgynhyrchwyr cynnyrch llaeth bach ar fferm oedd llawer o Safleoedd Cymeradwy'r Awdurdod. Roedd y llwyth gwaith ychwanegol a gafwyd yn sgil argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001 wedi atal yr Awdurdod rhag archwilio'r safleoedd hyn mor aml ag oedd angen.

7.4 Dangosodd adroddiad cyfrifiadurol a gynhyrchwyd yn ystod yr awdit fod yr archwiliadau canlynol yn dal heb eu gwneud gan yr Awdurdod:

Categori Risg	Nifer sy'n hwyr
A	27
B	70
C	178
D	18
E	23
F	25
Di-radd	7
CYFANSWM	**348**

7.5 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer archwilio safleoedd cyffredinol ond nid oedd yn cwmpasu archwiliadau o gigyddion trwyddedig neu safleoedd a gymeradwywyd dan reoliadau cynnyrch benodol. Defnyddiwyd ffurflenni archwilio mewn perthynas ag archwiliadau o gigyddion trwyddedig, ond nid ar gyfer safleoedd cyffredinol a Chymeradwy.

7.6 Mae'n ymddangos fod swyddogion gydag awdurdod priodol wedi cynnal archwiliadau trylwyr o safleoedd cyffredinol ac wedi darparu cyfradd risg cywir, yn unol â chanllawiau swyddogol (gweler paragraff 5.3).

7.7 Roedd adroddiadau wedi'u hanfon at berchnogion yn dilyn yr holl archwiliadau o safleoedd cyffredinol. Roedd yr adroddiadau'n glir a'r gofynion cyfreithiol yn wahanol i'r argymhellion. Cafodd y gwaith oedd angen ei wneud yn dilyn yr archwiliadau ei nodi'n glir, gan ystyried Canllawiau'r Diwydiant ac roedd yn gyson â chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Roedd y cyfeiriadau cyfreithiol yn gywir ym mhob achos.

7.8 Yn y rhan fwyaf o'r ffeiliau safleoedd cyffredinol a archwiliwyd cymerwyd camau dilynol priodol pan nodwyd achos o fethu â chydymffurfio, yn cynnwys ail ymweliadau amserol lle bo'n briodol.

7.9 Codwyd nifer o faterion ynglŷn ag archwilio safleoedd cigyddion yn cynnwys y ffaith nad oedd swyddogion yn cwblhau'r ffurflen archwilio yn llawn, tystiolaeth o reolau'n cael eu torri ar y safle er bod trwydded wedi'i rhoi a bod safle wedi gweithredu heb drwydded, er bod yr Awdurdod yn gwybod eu bod wedi trafod cig amrwd a bwydydd parod i'w bwyta.

7.10 Nid oedd 8 o'r 10 ffeil Safle Cymeradwy a archwiliwyd yn cynnwys dogfen gymeradwyo ac nid oedd y 2 ddogfen gymeradwyo a oedd yn bresennol yn rhestru'r cynhyrchion a gymeradwywyd.

Argymhellion

7.11 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod archwiliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Sicrhau bod y broses gymeradwyo, archwiliadau o Safleoedd Cymeradwy a thrwyddedu safleoedd cigyddion yn cael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau swyddogol perthnasol. Dylai hyn gynnwys adolygiad o gymeradwyaethau cyfredol. [Y Safon – 7.2]

(iii) Ehangu'r gweithdrefnau dogfenedig cyfredol i gynnwys archwiliadau o Safleoedd Cymeradwy ac archwiliadau trwyddedu cigyddion. [Y Safon – 7.5]

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

7.12 Yn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 2002/2003 roedd yr Awdurdod yn nodi bod archwiliadau safonau bwyd wedi eu cynnal mewn 1278 o safleoedd a bod archwiliadau bwydydd anifeiliaid wedi eu cynnal mewn 235 o safleoedd, gyda'r ail yn cynnwys safleoedd bwydydd anifeiliaid cofrestredig a chymeradwy. Roedd yr archwiliadau safonau bwyd yn dangos y proffil canlynol.

Categori Risg	Rhif	%*
Uchel	9	1
Canolig	875	68
Isel	394	31
CYFANSWM	**1278**	

* Ffigurau wedi'u talgrynnu

7.13 Archwiliwyd hanes archwilio 10 safle mewn perthynas ag archwiliadau safonau bwyd. Roedd wyth wedi'u harchwilio'n ddigon rheolaidd yn ôl gofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Safonau Bwyd. Roedd y cyfan wedi'u hasesu'n gywir am risg a'u harchwilio gan swyddog awdurdodedig priodol.

7.14 Nid oedd gan yr Awdurdod raglen archwilio ar gyfer safleoedd safonau bwyd na safleoedd bwydydd anifeiliaid. Nodwyd fod 9 o safleoedd safonau bwyd uchel eu risg, 109 o safleoedd risg canolig ac 8 o safleoedd isel eu risg ynghyd â 47 safle bwydydd anifeiliaid i'w

harchwilio eleni. Roedd yr Awdurdod wedi'i atal rhag cynnal archwiliadau o safleoedd bwydydd anifeiliaid cofrestredig yn 2001 yn sgil y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau.

7.15 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefnau archwilio dogfenedig ar gyfer safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid fel rhan o'u dogfennau gweithdrefnau gorfodi.

7.16 Darparwyd copïau o adroddiadau ôl-archwilio i'r holl archwiliadau diweddar o 10 ffeil safle. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd cofnodion y ffeiliau'n nodi fod archwiliadau wedi'u cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a bod yr awdurdod wedi asesu cydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol.

Argymhelliad

7.17 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod archwiliadau safonau bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Safonau Bwyd. [Y Safon – 7.1]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi a gweithdrefn ddogfenedig ar gwynion hylendid bwyd a gweithdrefnau yn gysylltiedig â chwynion am safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei weithdrefnau gorfodi.

8.2 Yn achos cwynion am hylendid bwyd defnyddiwyd ffurflen gwyno i gofnodi manylion llawn y gŵyn a llythyrau safonol i hysbysu'r achwynydd a phartïon eraill o hynt a chanlyniad yr ymchwiliad.

8.3 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â 7 o gwynion am hylendid bwyd a safleoedd bwyd. Dangosodd y ffeiliau fod data trylwyr wedi'i gofnodi am y gŵyn ar y cyfan a bod ymchwiliadau priodol wedi'u cynnal. Mewn un achos, nid oedd digon o dystiolaeth yn y ffeil i benderfynu a gafwyd ymchwiliad priodol ai peidio ac mewn 3 ffeil nid oedd tystiolaeth i ddangos a oedd y partïon dan sylw wedi cael gwybod am ddatblygiad y gŵyn.

8.4 Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw gwynion am fwydydd anifeiliaid yn ystod y ddwy flynedd cyn yr awdit.

Argymhelliad

8.5 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau ei fod yn gweithredu ei weithdrefn gwynion hylendid bwyd yn llawn. [Y Safon – 8.2]

9 Egwyddor Awdurdod Cartref

9.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2002/2003 yn datgan fod yr Awdurdod yn ymrwymedig i'r Egwyddor Awdurdod Cartref. Roedd yr Awdurdod yn gweithredu'n anffurfiol fel yr Awdurdod Cartref ac fel Awdurdod Gwreiddiol i nifer o safleoedd yn cynnwys nifer o gynhyrchwyr caws bychan ar fferm a oedd yn allforio eu cynhyrchion. Fodd bynnag, nid oedd wedi hysbysu Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol (LACORS) o fanylion y busnesau yr oedd yn gweithredu fel Awdurdod Cartref drostynt. Cafwyd tystiolaeth fod yr Awdurdod wedi ymateb i ymholiadau gan awdurdodau lleol eraill.

9.2 Roedd swyddogion yn edrych ar wefan LACORS i weld Awdurdodau Cartref rhestredig. Roedd y swyddogion wedi cysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol pan roedd hi'n briodol iddynt wneud hynny ar gyfer yr amrywiaeth o weithredoedd gorfodi a archwiliwyd.

10 Cyngor i Fusnes

10.1 Yn ogystal â'r cyngor a roddwyd yn ystod yr archwiliadau, roedd y gwasanaeth yn gallu dangos dulliau eraill a ddefnyddir i helpu busnesau i gydymffurfio â'r gyfraith. Roedd y rhain yn cynnwys:

• Amrywiaeth o daflenni cynghori swyddogol a mewnol ar hylendid bwyd a materion safonau bwyd i arlwywyr a'r rhai sy'n trafod bwyd;

• Hwyluso prosiect gyda busnesau bwyd bach a chanolig i wella eu sgiliau, eu safonau a'u gallu i gystadlu yn y farchnad. Gweinyddwyd y prosiect ar y cyd â Choleg Ceredigion, Canolfan Bwyd Cymru a Phrifysgol Cymru Aberystwyth;

• Cyngor ar fwydydd anifeiliaid i safleoedd amaethyddol lleol.

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd gan yr Awdurdod gronfa ddata gyfrifiadurol o safleoedd bwyd yr ardal.

11.2 Nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol i sicrhau bod y gronfa ddata yn gywir a chyfredol, ond roedd manylion yn cael eu diweddaru ar ôl i'r ffurflenni cofrestru ddod i law ac ar ôl ymweld â'r safleoedd.

11.3 Archwiliwyd y gronfa ddata ar gyfer 10 safle bwyd a gafodd eu nodi ar hap o gyfeiriadur busnes cyfredol. Roedd pob safle wedi'i gynnwys ar gronfeydd data'r Awdurdodau.

11.4 Roedd swyddogion yn gallu cael mynediad i'r cronfeydd data trwy ddefnyddio cyfrinair, ac wedi'u hatal rhag creu neu ddileu cofnodion. Fodd bynnag, nid oedd cyfrineiriau'n cael eu newid yn rheolaidd ac mae angen ffurfioli'r mesurau diogelwch i atal mynediad a diwygio gan unigolion heb awdurdod.

Argymhelliad

11.5 Dylai'r Awdurdod:

Ddatblygu a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod ei gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir a chyfredol. [Y Safon – 11.2]

12 Archwilio a Samplu Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Cyffredinol

12.1 Roedd y labordai a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod wedi eu hachredu'n briodol.

12.2 Nid oedd gan yr Awdurdod bolisi samplu dogfenedig ar fwyd na bwydydd anifeiliaid.

12.3 Yn ei adroddiadau monitro i'r Asiantaeth Safonau Bwyd am 4 chwarter blwyddyn ariannol 2001/2002, nododd yr Awdurdod ei fod wedi cymryd 415 o samplau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

Hylendid Bwyd

12.4 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn samplu ddogfenedig ar gyfer samplau hylendid bwyd.

12.5 Yn achos y 10 canlyniad sampl anfoddhaol a archwiliwyd, roedd yr Awdurdod wedi anfon llythyrau yn cadarnhau'r canlyniadau i bob safle y cymerwyd samplau ohonynt. Fodd bynnag, nid oedd fawr o dystiolaeth i ddangos bod camau dilynol wedi'u cymryd.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.6 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefnau samplu dogfenedig fel rhan o'r gweithdrefnau gorfodi a oedd yn gysylltiedig â safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

12.7 Roedd yr Awdurdod wedi penodi Dadansoddwr Amaethyddol i gwblhau'r dadansoddiad angenrheidiol o samplau bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

12.8 Dylai'r Awdurdod:

Sefydlu, cynnal a gweithredu polisi samplu sy'n cynnwys yr ystod lawn o weithgareddau gorfodi a wneir gan y gwasanaeth. [Y Safon – 12.3]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

13.1 Roedd gan yr Awdurdod Gynllun Rheoli Achosion a luniwyd mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Iechyd Lleol yn 2002 ac a oedd yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer delio ag achosion mewn safleoedd bwyd. Hysbyswyd yr archwilwyr na fu unrhyw achosion diweddar o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn ardal yr Awdurdod. Ni chafwyd tystiolaeth fod cynllun rheoli achosion yr Awdurdod wedi'i brofi er bod swyddogion wedi bod yn rhan o ddigwyddiad hyfforddi gydag awdurdodau eraill yn seiliedig ar brofi cynllun Cymru gyfan.

13.2 Roedd y Cynllun Rheoli Achosion hefyd yn cynnwys gweithdrefn ar ymchwilio i rybuddion unigol am glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, ynghyd â set gynhwysfawr o nodiadau cynghori, holiaduron a llythyrau safonol.

13.3 Nid oedd cofnodion y ffeiliau a oedd yn ymwneud â rhybuddion unigol am glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn ddigonol i benderfynu a gwblhawyd ymchwiliad priodol ai peidio.

Argymhelliad

13.4 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod ei weithdrefn ar gyfer ymchwilio i rybuddion unigol am glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gweithredu'n briodol, ac yn cynnwys manylion unrhyw ymchwiliad a wnaed.
[Y Safon – 13.2]

14 Achosion Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu gweithdrefnau dogfenedig ar ddelio â Rhybuddion Perygl i Fwyd (FHW) a dderbyniwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac er mwyn dechrau camau gweithredu mewn perthynas ag achosion a nodwyd yn lleol. Nid oedd y weithdrefn yn cynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau.

14.2 Roedd system gyfrifiadurol yr Awdurdod yn gallu derbyn Rhybuddion Perygl i Fwyd ac roedd copïau ar gael o bob FHW a roddwyd yn y flwyddyn ddiwethaf. Er bod yr Awdurdod yn adrodd ei fod yn nodi unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â Rhybuddion Perygl i Fwyd yn erbyn cofnodion safleoedd unigol, nid oedd cofnod i nodi bod pob Rhybudd Perygl i Fwyd wedi'i ystyried i weld a oedd angen unrhyw weithredu ai peidio.

14.3 Dywedwyd wrth yr archwilwyr na fu unrhyw achosion lleol difrifol a oedd angen eu hysbysu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Argymhellion

14.4 Dylai'r Awdurdod:

(i) Ddiwygio'r weithdrefn ddogfenedig ar ymateb i Rybuddion Perygl i Fwyd, i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau. [Y Safon – 14.1]

(ii) Sicrhau ei fod yn dogfennu ei ymateb i bob Rhybudd Perygl i Fwyd ac yn cofnodi'r canlyniad. [Y Safon – 14.3]

15 Gorfodaeth

Cyffredinol

15.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi gorfodi dogfenedig a oedd wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan fforwm aelodau perthnasol yr Awdurdod Lleol ym mis Ebrill 2000. Roedd polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd wedi'i gymeradwyo gan y fforwm aelodau perthnasol ym mis Mehefin 2001 hefyd a fersiwn ddiwygiedig wedi'i chynhyrchu ym mis Ionawr 2003 nad oedd wedi ei chymeradwyo gan yr aelodau eto.

15.2 Roedd y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 2002/2003 yn datgan fod yr Awdurdod wedi llofnodi'r Concordat Gorfodi.

Hylendid Bwyd

15.3 Roedd yr Awdurdod wedi cyflawni'r gweithgareddau gorfodi ffurfiol canlynol yn y 2 flynedd cyn yr awdit:

1 achos erlyn yn ymwneud â hylendid bwyd;
2 achos o gau gwirfoddol;
2 achos o gadw/atafael bwyd;
1 achos o ildio bwyd yn wirfoddol.

15.4 Roedd yr Awdurdod wedi bod yn rhan o sawl ymchwiliad cymhleth a dwys o ran adnoddau dros y ddwy flynedd ddiwethaf – ymchwiliadau i ladd a chynhyrchu "Smokies" yn anghyfreithlon i'w bwyta gan bobl. Roedd un achos wedi'i erlyn yn llwyddiannus yn Llys y Goron a gweithgareddau anghyfreithlon cysylltiedig pellach yn dal i gael eu hymchwilio.

15.5 Cafodd ymchwiliadau o'r fath effaith sylweddol ar y gwasanaeth gorfodi bwyd gyda 0.55 o staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio ar un ymchwiliad mawr parhaus yn unig. Roedd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru wedi secondio swyddog penodol ond roedd yr Awdurdod wedi gorfod ail-flaenoriaethu ei lwyth gwaith i sicrhau bod modd ymchwilio i'r risgiau cysylltiedig i iechyd y cyhoedd yn drylwyr yn sgil maint a chymhlethdod y gweithgarwch anghyfreithlon yn y rhanbarth. Roedd yr Awdurdod wedi paratoi protocolau ymchwilio hefyd ac wedi rhannu arbenigedd gydag awdurdodau lleol eraill. Roedd ymrwymiad yr Awdurdod i fynd i'r afael â gweithgarwch troseddol soffistigedig yn ei ardal wedi effeithio'n drwm ar ei allu i ddarparu ei raglen o ymchwilio safleoedd bwyd.

15.6 Roedd maint a chymhlethdod yr achosion yn gofyn am ymchwiliad amlddisgyblaeth. Roedd hyn yn golygu fod yn rhaid i'r gwasanaeth

gorfodi ddatblygu gweithdrefnau newydd mewn perthynas ag erlyniadau cymhleth. Roedd yr Awdurdod wedi cynnwys y rhain mewn dogfen ganllaw i'w defnyddio gan awdurdodau eraill.

15.7 Roedd y gwasanaeth wedi datblygu gweithdrefnau dogfenedig i ddefnyddio Rhybuddion Gwahardd Brys, i gyflwyno Rhybuddion i Wella ac i gadw ac atafael bwyd. Yn dilyn yr ymchwiliad i gynhyrchu "Smokies" cynhyrchwyd fersiwn ddiwygiedig ar gyfer paratoi ffeiliau erlyn.

15.8 Archwiliwyd cofnodion ffeiliau y 2 achos o gau gwirfoddol. Yn y ddau achos, roedd y cau yn ymwneud â phlâu. Nid oedd y cofnodion yn nodi'n glir sut roedd yr Awdurdod wedi dod i'r casgliad mai cau gwirfoddol oedd y dull mwyaf priodol o ddelio â'r plâu.

15.9 Roedd cofnodion y ffeiliau a oedd yn ymwneud ag ildio gwirfoddol a chadw ac atafael bwyd yn dangos fod hyn wedi'i wneud yn unol â Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau swyddogol.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

15.10 Roedd yr Awdurdod wedi cwblhau'r gweithgareddau gorfodi canlynol yn y 2 flynedd cyn yr awdit:

6 achos o erlyn am safonau bwyd.

15.11 Roedd pob achos o erlyn wedi'i awdurdodi'n briodol, wedi digwydd heb oedi diangen ac yn cydymffurfio â Pholisi Gorfodi'r gwasanaeth. Roedd yr erlyniadau hefyd yn ystyried Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ac roedd yr un mwyaf diweddar yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996.

15.12 Roedd y gwasanaeth wedi datblygu gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi a oedd yn cwmpasu safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

16 Cofnodion ac Adroddiadau Archwilio

Hylendid Bwyd

16.1 Roedd hi'n bosib cael gafael ar gofnodion papur a chronfa ddata o safleoedd bwyd ac yn gyffredinol, roedd y rhain wedi'u cadw am y 6 blynedd sy'n ofynnol gan Y Safon.

16.2 Archwiliwyd cofnodion y 10 safle cyffredinol lle cynhaliwyd archwiliadau o hylendid bwyd. Yn gyffredinol, nid oedd y cofnodion yn cynnwys manylion am faint y busnes, y math o weithgarwch bwyd, gwybodaeth am hyfforddiant hylendid neu asesiad o gydymffurfiaeth dadansoddi peryglon y busnes.

16.3 Archwiliwyd cofnodion y 10 Safle Cymeradwy hefyd. Ym mron pob achos, nid oedd y ffeiliau'n cynnwys manylion archwilio fel archwiliad cyn-cymeradwyo, y labordai a ddefnyddir gan y cwmni, trefniadau rheoli plâu, cynlluniau tynnu yn ôl mewn argyfwng a manylion am y dulliau glanhau a ddefnyddiwyd.

16.4 Roedd cofnodion y ffeiliau oedd yn ymwneud â thrwyddedu siopau cigyddion yn anghyflawn ar y cyfan, nid oeddynt yn cynnwys disgrifiad o'r gweithrediadau ar y safle, a manylion cydymffurfio â gofynion hyfforddiant a HACCP ac a oedd y drwydded yn cyfeirio at y safle cyfan neu ran o'r safle.

16.5 Yn gyffredinol, roedd yr Awdurdod yn cyhoeddi adroddiad archwilio neu lythyr dilynol ar ôl pob archwiliad hylendid bwyd.

16.6 Roedd cofnodion y ffeiliau ar gyfer erlyniadau, cau yn wirfoddol, cadw/atafael bwyd ac ildio bwyd yn wirfoddol yn fanwl a chlir.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

16.7 Roedd hi'n bosib cael gafael ar gofnodion papur a chronfa data o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid ac yn gyffredinol, roedd y rhain wedi'u cadw am y 6 blynedd sy'n ofynnol gan Y Safon.

16.8 Gadawyd ffurflenni ôl-archwiliad ar y safle yn dilyn archwiliad o safonau bwyd, ac roedd cofnodion archwiliadau diweddar a welwyd yn gynhwysfawr ar y cyfan.

16.9 Roedd y cofnodion copi caled o safleoedd bwydydd anifeiliaid yn gynhwysfawr.

Argymhelliad

16.10 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod manylion cofnodion sy'n cael eu cadw am archwiliadau hylendid bwyd, Safleoedd Cymeradwy a safleoedd cigyddion trwyddedig yn ddigonol i sicrhau bod modd gweld y camau gweithredu a gymerwyd a hanes o gydymffurfio. [Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi a gweithdrefn cwynion corfforaethol a oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Y Safon.

17.2 Roedd gwybodaeth am y weithdrefn ar gael mewn derbynfeydd ac roedd taflen yn amlinellu'r weithdrefn ar gael i'r cyhoedd.

17.3 Dywedwyd wrth yr archwilwyr nad oedd cwynion wedi'u cofnodi yn erbyn y gwasanaeth yn y 2 flynedd cyn yr awdit.

18 Ymgynghori â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau ymgynghori gydag awdurdodau cyfagos a chyrff priodol eraill er mwyn hwyluso gorfodaeth gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cymryd rhan yn y canlynol:

- Grŵp Gorchwyl Diogelwch Bwyd y De Orllewin;

- Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru;

- Grŵp Cyswllt Samplu Safonau Bwyd y Gorllewin;

- Panel Safonau Bwyd ac Amaethyddol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru.

18.2 Roedd y Gwasanaeth yn ymgynghori'n rheolaidd ag adrannau eraill y Cyngor a chyda'r Awdurdod Iechyd lleol ar faterion rheoli clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd.

18.3 Roedd yr Awdurdod wedi ymgynghori â nifer o adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi mewn cysylltiad â'r gweithgareddau cig anghyfreithlon. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Y Gwasanaeth Hylendid Cig;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- DEFRA;
- Awdurdod Datblygu Cymru;
- Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol;
- Yr Heddlu;
- Awdurdodau Lleol y tu allan i Gymru;
- Asiantaeth Taliadau Gwledig.

19 Monitro Mewnol

19.1 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn fonitro fewnol ddogfenedig ar gyfer holl agweddau'r gwasanaeth, ond roedd ganddo weithdrefnau ar fonitro archwiliadau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y weithdrefn hylendid bwyd yn cynnwys ffurflen adrodd monitro ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn wedi'i gweithredu'n llawn ac nid oedd cofnodion monitro ar gael.

19.2 Cafwyd tystiolaeth o fonitro ansoddol a meintiol anffurfiol yn cynnwys y canlynol:

- Monitro perfformiad trwy adroddiadau mewnol a phwyllgorau;
- Cyfarfodydd tîm i drafod materion dehongli;
- Adolygu gohebiaeth.

Argymhelliad

19.3 Dylai'r Awdurdod:

Lunio a gweithredu gweithdrefn fonitro fewnol a sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei gweithredu'n llawn i sicrhau gorfodaeth effeithiol a chyson a gwirio ei bod yn cydymffurfio â holl feysydd Y Safon, deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod [Y Safon - 19.1]

20 Adolygiad gan Gymheiriaid neu Drydydd Parti

20.1 Roedd yr Awdurdod wedi cymryd rhan yng Nghynllun Awdit rhyng-Awdurdod Cymru Gyfan ym 1999. Cynhyrchwyd cynllun gweithredu gan yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod yr awdit.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Roedd yr Awdurdod yn gwneud gwaith hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd a oedd yn cynnwys:

- Cymryd rhan yn Wythnos Ddiogelwch Bwyd Genedlaethol Foodlink a oedd yn cynnwys datblygu llenyddiaeth hyrwyddo ddwyieithog unigryw;
- Cymryd rhan ym menter Strategaeth Fwyd Ceredigion, dull strategol o ymdrin â phob agwedd ar ddarpariaeth bwyd, gorfodaeth, addysg, cyllid ac ymchwil a datblygu yn yr Awdurdod;
- Ymrwymiad i fod yn rhan o Gynllun Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru.

Archwilwyr: **Nick Wellington**
Jane Davies
Rob Wilkins
Keith Blake

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Cynllun Gweithredu i Gyngor Sir Ceredigion

Dyddiad Awdit: 25-27 Chwefror 2003

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	Erbyn (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
1. Cynnal adolygiad o berfformiad blynyddol. Mae hwn yn cael ei ddogfennu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo.	30.06.04	3.9 Dylai'r Awdurdod sicrhau bod y Cynllun Gwasanaeth yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r adolygiad yn cael ei ddogfennu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]	
2. Mae angen adolygu'r polisïau dogfenedig cyfredol. Mae angen adolygu copïau caled cyfredol y Swyddfeydd Ardal ac mae llawer o'r wybodaeth angenrheidiol ar gael ar ein systemau TG	30.03.05	4.3(i) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau dogfenedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.[Y Safon – 4.1]	
3. Mae angen adolygu'r polisïau dogfenedig cyfredol. Mae angen adolygu copïau caled cyfredol y Swyddfeydd Ardal ac mae llawer o'r wybodaeth angenrheidiol ar gael ar ein systemau TG.	30.3.2005	4.3(ii) Dylai'r Awdurdod sefydlu, cynnal a gweithredu system reoli ar gyfer yr holl ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau gorfodi. [Y Safon – 4.2]	
4. Mae gan yr Awdurdod system ar gyfer awdurdodi swyddogion wrth eu penodi. 5. Mae angen gweithdrefn ddogfenedig i gadarnhau hyn ac i ddiweddaru awdurdodiad ar gyfer deddfwriaeth newydd.	30.06.04	5.8(i) Dylai'r Awdurdod sefydlu a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i awdurdodi swyddogion. [Y Safon – 5.1]	

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	Erbyn (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
6. Disgwylir i'r tîm staff diogelwch bwyd fod yn gyflawn erbyn 30 Medi 04	30.09.04	5.8(ii) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod yr holl staff a oedd yn gysylltiedig â chyflawni dyletswyddau gorfodi bwyd yn gymwys i wneud hynny yn unol â Chod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon - 5.3]	Mae'r Awdurdod wedi gwneud pob ymdrech i ddenu swyddogion cymwys i'r swyddi perthnasol, ond o fethu gwneud hynny mae wedi hyfforddi swyddogion yn fewnol, ond mae hon yn broses hir. Cafwyd anawsterau i gael cymorth allanol gan y sector preifat er mwyn mynd i'r afael â cholledion staff yn sgil absenoldeb mamolaeth a secondiad i swyddi eraill.
7. Bydd system ddogfenedig arall yn cael ei sefydlu yn ychwanegol at y system gorfforaethol gyfredol. Yn ôl arfer cyfredol yr Awdurdod mae gofynion hyfforddi'n cael eu hasesu yn ôl anghenion unigol.	30.06.04	5.8(iii) Dylai'r Awdurdod gofnodi cynnwys, amcanion, hyd ac unrhyw asesiad a wneir o'r cyrsiau hyfforddi a fynychwyd. [Y Safon – 5.4]	
8. Bydd system ddogfenedig arall yn cael ei sefydlu yn ychwanegol at y ffeiliau Personél corfforaethol cyfredol.	30.06.04	5.8(iv) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod cofnodion cymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill yn cael eu cadw. [Y Safon – 5.5]	
9. Bydd y weithdrefn ddogfenedig gyfredol yn cael ei gweithredu a'i chynnal.	30.06.04	6.4 Dylai'r Awdurdod lunio a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer graddnodi i sicrhau bod pob offeryn mesur tymheredd yn cael ei raddnodi a'i gynnal yn briodol. [Y Safon – 6.2]	
10. Dylai adnoddau staff cyfredol fod yn ddigonol i fynd i'r afael â'r mater hwn wedi iddynt i) ddychwelyd i gyflogaeth llawn amser a ii) chwblhau hyfforddiant	30.03.05	7.11(i) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod archwiliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 7.1]	Mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â phrinder staff a bydd hyn yn effeithio ar berfformiad tîm

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	Erbyn (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
11. Mae Safleoedd Cymeradwy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a byddant yn destun adolygiad cyn y dyddiad penodedig	30.03.04	7.11(ii) Dylai'r Awdurdod sicrhau bod y broses gymeradwyo, archwiliadau o Safleoedd Cymeradwy a thrwyddedu safleoedd cigyddion yn cael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau swyddogol perthnasol. Dylai hyn gynnwys adolygiad o gymeradwyaethau cyfredol. [Y Safon – 7.2]	
12. Mae safleoedd trwyddedig yn cael eu harchwilio fesul Cod Ymarfer o fewn yr Amserlenni cyfredol	30.03.05	7.11(iii) Dylai'r Awdurdod ehangu'r gweithdrefnau dogfenedig cyfredol i gynnwys archwiliadau o Safleoedd Cymeradwy ac archwiliadau trwyddedu cigyddion. [Y Safon – 7.5]	
13. Nid yw'r adnoddau staff cyfredol yn ddigonol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae angen un aelod arall o staff yn yr Is-adran Safonau Masnach a dylai'r aelod hwn weithio'n benodol ar safonau bwyd er mwyn cyrraedd targedau mewn perthynas ag archwilio safleoedd risg cymedrol a chwblhau Trefniadau Gorfodi Eraill mewn perthynas â safleoedd isel eu risg.	30.03.05	7.17 Dylai'r Awdurdod sicrhau bod archwiliadau safonau bwyd yn cael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Archwiliadau Safonau Bwyd. [Y Safon – 7.1]	
14. Mae'r system gwyno a'r broses o fonitro'r system honno yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.	30.03.04	8.5 Dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn gweithredu ei weithdrefn gwynion hylendid bwyd yn llawn. [Y Safon – 8.2]	
15. Bydd y gwelliant hwn yn cael ei ystyried wrth sefydlu cynllun asesu risg LACORS	30.09.04	11.5 Dylai'r Awdurdod ddatblygu a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod ei gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir a chyfredol. [Y Safon – 11.2]	Cafwyd anawsterau wrth fynd i'r afael â'r mater hwn sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	Erbyn (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
16. Mae'r Awdurdod wrthi'n creu'r fersiwn derfynol o'i bolisi samplu dogfenedig yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol a rhaglenni samplu a gyd-gysylltwyd yn genedlaethol.	30.06.04	12.8 Dylai'r Awdurdod sefydlu, cynnal a gweithredu polisi samplu sy'n cynnwys yr ystod lawn o weithgareddau gorfodi a wneir gan y gwasanaeth. [Y Safon – 12.3]	
17. Mae'r Awdurdod yn adolygu'r gwaith o weithredu gweithdrefnau dogfenedig cyfredol ar ymchwilio clefydau sy'n gysylltiedig â bwyd.	30.03.05	13.4 Dylai'r Awdurdod sicrhau bod ei weithdrefn ar gyfer ymchwilio i rybuddion unigol am glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gweithredu'n briodol, ac yn cynnwys manylion unrhyw ymchwiliad a wnaed. [Y Safon – 13.2]	Adolygiad parhaus
18. Mae'r Awdurdod yn dyfeisio system ddogfenedig ffurfiol i gofnodi manylion am gamau gweithredu perthnasol a gymerwyd mewn ymateb i Rybuddion Perygl i Fwyd.	01.04.04	14.4(i) Dylai'r Awdurdod ddiwygio'r weithdrefn ddogfenedig ar ymateb i Rybuddion Perygl i Fwyd, i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau. [Y Safon – 14.1]	Mae ymateb y tu allan i oriau yn cael ei weithredu ar sail ewyllys da ar hyn o bryd – byddai ffurfioli'r trefniadau yn effeithio ar bolisïau corfforaethol.
19. Mae'r Awdurdod wrthi'n dogfennu gweithdrefnau cyfredol sy'n gysylltiedig â Rhybuddion Perygl i Fwyd – yn unol â Chodau Ymarfer cyfredol.	30.06.04	14.4(ii) Dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn dogfennu ei ymateb i bob Rhybudd Perygl i Fwyd ac yn cofnodi'r canlyniad. [Y Safon – 14.3]	
20. Mae gan yr Awdurdod systemau TG a chopi caled ar gyfer adfer gwybodaeth berthnasol - bydd diweddaru data a fewnbynnwyd yn helpu i wella systemau cyfredol.	30.06.04	16.10 Dylai'r Awdurdod sicrhau bod manylion cofnodion sy'n cael eu cadw am archwiliadau hylendid bwyd, Safleoedd Cymeradwy a safleoedd cigyddion trwyddedig yn ddigonol i sicrhau bod modd gweld y camau gweithredu a gymerwyd a hanes o gydymffurfio. [Y Safon – 16.1]	

GWELLIANNAU A GYNLLUNIWYD	Erbyn (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL AG (ARGYMHELLIAD YN CYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
21. Mae'r Awdurdod yn sefydlu system ddogfenedig i gofnodi'r system gyfredol lle mae swyddogion o wahanol dimau a rheolwyr yn cyflawni archwiliadau ar y cyd er mwyn hwyluso egwyddorion gorfodi cyson. Cefnogwyd hyn ymhellach yn ystod trafodaethau mewn Cyfarfodydd o'r Tîm Diogelwch Bwyd.	30.12.04	19.3 Dylai'r Awdurdod lunio a gweithredu gweithdrefn fonitro fewnol a sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei gweithredu'n llawn i sicrhau gorfodaeth effeithiol a chyson a gwirio ei bod yn cydymffurfio â holl feysydd Y Safon, deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod. [Y Safon - 19.1]	

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Unigolyn, sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig, a benodwyd yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau o fwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safleoedd gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac a dderbyniodd god adnabod unigryw sy'n berthnasol i fasnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran, er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth er enghraifft.
Gwerth Gorau *	Polisi'r Llywodraeth sy'n ceisio gwella perfformiad llywodraeth leol o ran darparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed i iechyd yr amgylchedd a chynnal a chadw ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu'r cyfraniad mae pobl leol yn ei wneud at benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella trefniadau rheoli ac adolygu busnes awdurdodau • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella wedi disodli hyn yn ddiweddar
Man Archwilio ar y Ffin	Pwynt mynediad i'r DU o wledydd sydd y tu allan i'r UE ar gyfer cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a roddwyd dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi'r ddeddfwriaeth fwyd.
Concordat Gorfodi	Canllawiau'r Llywodraeth sy'n nodi egwyddorion a gweithdrefnau gorfodaeth da y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Fe'i datblygwyd ar y cyd â busnesau, llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog,

	grwpiau defnyddwyr a phartïon eraill â diddordeb. Mae'n nodi beth gall busnesau ac eraill sy'n cael eu rheoleiddio ei ddisgwyl gan swyddogion gorfodi.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau porthiant ar gyfer anifeiliaid fferm a bwyd anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Unigolyn, sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig i wneud dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl i Fwyd	System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu diogelwch a natur lesol bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyno a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd • Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Awdit Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ar gynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith bwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Asiantaeth ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr archwiliadau, samplau ac erlyniadau. Dan y **Cynllun Awdit** bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal awdit o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn erbyn y meini prawf a nodir yn y Safon.

Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli rhan o amser swyddog unigol sydd ar gael i wneud swyddogaeth arbennig neu set o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallant fod â chyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn ymwneud â gorfodaeth bwyd.
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system reoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol o ran diogelwch bwyd fod y mesur rheoli'n cael ei gyflawni'n gywir, gan ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel.
Awdurdod Cartref	Yr Awdurdod lle mae canolfan gwneud penderfyniadau perthnasol menter wedi'i lleoli a'r awdurdod sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog i ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig â bwyd y cwmni hwnnw.
Rhybudd i wella	Rhybudd sy'n cael ei roi gan Swyddog Awdurdodedig awdurdod lleol dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, yn gofyn i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio rhyng-awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd y cytunwyd arni.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau ar wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd.
Adroddiadau OCD	Dychweliadau ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd dan Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae busnes yn cynhyrchu neu'n pacio nwyddau neu

	wasanaethau a lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog i ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol sy'n cynnwys pwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, sy'n meddu ar y cymwysterau rhagnodedig, a benodwyd yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i wneud dadansoddiad cemegol o samplau bwyd.
Cyfradd risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl risg ac yn penderfynu pa mor aml y dylid archwilio'r safleoedd. Er enghraifft, dylid archwilio safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg o leiaf bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol yn nodi eu cynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o awdurdod lleol sy'n cyflawni, ymhlith cyfrifoldebau eraill, ddyletswyddau gorfodi safonau bwyd a deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (TSO)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a all, ymhlith cyfrifoldebau eraill, orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle mae'r holl swyddogaethau'n cael eu cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.